OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 7

### Argaeledd Cyfarwyddydau etc. a Hysbysu am Benderfyniadau

**Gwybodaeth i fynd gyda phenderfyniadau**

**28.**—(1) Pan fo cais neu apêl AEA y cyflwynwyd datganiad amgylcheddol mewn perthynas ag ef neu hi yn cael ei benderfynu neu ei phenderfynu gan awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru, yn ôl y digwydd, rhaid i'r person sy'n gwneud y penderfyniad hwnnw ddarparu i'r ceisydd neu'r apelydd yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2).

(2) Yr wybodaeth honno yw—

(a) gwybodaeth ynghylch yr hawl i herio dilysrwydd y penderfyniad a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny; a

(b) os yw'n benderfyniad i roi caniatâd cynllunio neu gydsyniad dilynol—

(i) casgliad rhesymedig yr awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru, yn ôl y digwydd, ynghylch effeithiau sylweddol y datblygiad ar yr amgylchedd, gan ystyried canlyniadau'r archwiliad y cyfeirir ato yn rheoliad 25(1)(a) a (b);

(ii) unrhyw amodau y mae'r penderfyniad yn ddarostyngedig iddynt sy'n ymwneud ag effeithiau sylweddol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd;

(iii) disgrifiad o unrhyw un neu ragor o nodweddion y datblygiad ac unrhyw fesurau a ragwelir er mwyn osgoi, atal neu leihau effeithiau andwyol sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, a gwrthbwyso'r effeithiau hynny os yw'n bosibl; a

(iv) unrhyw fesurau monitro y mae'r awdurdod neu Weinidogion Cymru, yn ôl y digwydd, yn ystyried eu bod yn briodol; neu

(c) os yw'n benderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio neu gydsyniad dilynol, y prif resymau dros wrthod.